

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	12 Hydref 2017
TEITL:	Ymgynghoriad Papur Gwyn – Taro'r Cydbwysedd Iawn
AWDUR:	Mair Rowlands
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno ymateb drafft yr Uned Iaith i ymgynghoriad y Llywodraeth ar eu Papur Gwyn: Taro'r Cydbwysedd Iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

1. Cefndir

- 1.1 Ymgynghoriad yw hwn gan y Llywodraeth i ystyried newidiadau i Fesur y Gymraeg, a'r modd y caiff y Safonau eu gosod a'u gweithredu.
- 1.2 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben 31 Hydref 2017
- 1.3 Cafwyd galwad am dystiolaeth yn gynharach yn 2017, oedd yn gofyn am brofiadau yr awdurdodau lleol yn dilyn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Safonau Iaith. Anfonwyd ymateb gan yr Uned iaith yn mynegi ein pryderon a'n rhwystredigaethau gyda'r system bresennol. Gellir gweld copi o'n ymateb fel atodiad 1 a chrynodeb o'r holl ymatebion a dderbyniwyd gan y Llywodraeth yn atodiad 2.
- 1.4 Cafodd themâu cyffredin eu hadnabod yn yr alwad am dystiolaeth, gyda nifer o gyrff yn tynnu sylw at broblemau gyda'r drefn bresennol o gyflwyno cwynion, yn ogystal a'r baich gweinyddol a biwrocraidaidd sydd ynghlwm a'r Safonau.
- 1.5 Mae'r Papur Gwyn hwn yn ymdrech i fynd i'r afael a rhai o'r problemau a phryderon a fynegwyd ac yn cynnig newidiadau ar gyfer Mesur y Gymraeg .
- 1.6 Mae'r ddogfen trosolwg wedi ei chynnwys fel Atodiad. Gellir gweld y dogfennau llawn Rydym wedi rhannu'r ddogfen trosolwg, ac fe rown grynoded o'r canfyddiadau, a'n sylwadau yn yr adroddiad hwn. Gallwch weld y ddogfen ymgynghori llawn drwy ddilyn y linc isod.:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-y-gymraeg-papur-gwyn>

2. Crynodeb o amcan y papur a'n hymateb:

- 2.1 Ceisio symud oddi wrth y system fiwrocraidd, trwm tuag at drefn sydd yn hybu a hwyluso, ac yn annog newid drwy fagu ewyllys da yn hytrach na gorfodi.
- 2.2 Mwy o bwyslais ar Gynllunio Ieithyddol
- 2.3 Symud y cyfrifoldeb o "osod" safonau o'r Comisiynydd (neu pa bynnag gorff fydd yn bodoli) i'r Llywodraeth ei hun.
- 2.4 Gofyn i gyrff ddelio efo cwynion yn uniongyrchol eu hunain cyn iddynt gael eu cyfeirio at y Comisiynydd. Dim ond mewn achosion difrifol y bydd y Comisiynydd yn ymchwilio.
- 2.5 Rydym yn croesawu'r newid agwedd yma, ac am weld trefn y safonau yn cael ei symleiddio, ond mae gennym hefyd bryderon bod unrhyw newid yn mynd i gymhlethu'r darlun. Mae hefyd angen sicrhau atebolrwydd y Llywodraeth ac nad ydynt yn diosg eu cyfrifoldebau drwy symud swyddogaethau presennol i gorff arall.
- 2.6 Croesawn yn arbennig y newid yn y drefn gwynion, fydd yn ein galluogi i ddelio efo materion yn uniongyrchol yn hytrach na'r drefn gudd a chymhleth bresennol. Serch hynny, mae gennym bryderon a fydd cadw cydbwysedd yn bosib rhwng y swyddogaethau hybu newydd a'r angen i ymchwilio a chynghori ar y safonau.

3. Camau Nesaf:

Bydd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Iaith yn cael eu hymgorffori yn yr ymateb a hwnnw yn cael ei anfon erbyn Hydref 31, yn unol a'r amserlen.

4. Argymhellion

Gofynnir i'r aelodau ystyried yr ymateb drafft a chynnig unrhyw sylwadau neu ychwanegiadau.